# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 16 Medi 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Gofyn i'r Prif Weinidog Cymru*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu Cynlluniau Busnes ar gyfer pob Adran yn nodi manylion eu gwaith, fel a amlinellwyd yng Nghynllun Cyflenwi Cymru'n Un 2007-2011 (WAQ54790)

***Rhoddwyd ateb ar 27 Hydref 2009***

Dywedais y byddwn yn ysgrifennu atoch gyda chopi o Gynllun Busnes pob Adran, yn esbonio manylion eu gwaith yn unol â Chynllun Cyflenwi Cymru'n Un 2007-2011. Mae'n ddrwg gennyf am yr oedi pellach. Anfonwyd y wybodaeth atoch yn electronig a rhoddwyd copi o'r dogfennau perthnasol yn y Llyfrgell.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Faint o grantiau addysg sydd ar gael i Awdurdodau Lleol yng Nghymru (WAQ54782)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Medi 2009***

Mae fy Adran i yn rhoi 41 o grantiau addysg ar gyfer awdurdodau lleol yn 2009-2010. Mae hyn yn cynnwys grantiau cyfalaf a refeniw o ran ysgolion a gwasanaethau ysgolion, gwasanaeth ieuenctid a dysgu yn y gymuned. Mae grantiau ar gyfer rhai gwasanaethau sy'n ymwneud ag addysg hefyd ar gael i awdurdodau lleol o ffynonellau eraill gan gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cyngor Chwaraeon Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop.
Paul Davies (Preseli Sir Benfro): Faint sy'n cael ei wario ar weinyddu grantiau addysg yn flynyddol yng Nghymru. (WAQ54783)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Medi 2009***

Ni chedwir y wybodaeth hon yn ganolog a gellid ond ei rhoi ar gost anghymesur.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r gwelliannau i gyflymder band eang mewn ardaloedd gwledig (WAQ54763)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu unrhyw welliannau i gyflymder band eang sydd yn yr arfaeth yn y Canolbarth (WAQ54764)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ymrwymiad i isafswm cyflymder ar gyfer band eang yng Nghymru wledig (WAQ54765)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Medi 2009***

Croesawaf adroddiad Prydain Ddigidol Llywodraeth y DU gyda'i ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth band eang 2Mbps cyffredinol (USC) ledled y DU. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda BT i werthuso'r 60 o ardaloedd heb fand eang ledled Cymru i benderfynu a yw'n ymarferol darparu ateb copr 2Mbps neu ateb ffibr i'r ardaloedd hyn.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod pobl yng Nghymru wledig yn cael budd o'r ymrwymiad hwn erbyn 2012. Rydym hefyd yn gweithio gyda darparwyr gwasanaethau i'w hannog i uwchraddio'r seilwaith i wella cyflymderau band eang.

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Pryd fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi canllawiau newydd i awdurdodau lleol ar gyfer pennu cyfyngiadau cyflymder (WAQ54768)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Medi 2009***

Gobeithiwn allu cyhoeddi canllawiau newydd ar derfyn cyflymder ar gyfer Cymru yn ystod hydref eleni.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno rheoliadau i chwalu rhai o'r rhwystrau rhag microgynhyrchu (WAQ54769)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Medi 2009***

Daeth Diwygiadau i reoliadau datblygu a ganiateir i rym ar 1af Medi 2009 sydd yn galluogi cartrefi i osod cyfarpar meicrogynhyrchu domestig heb orfod cael caniatâd cynllunio i ddechrau. Mae'r diwygiadau yn berthnasol i systemau solar ffotofoltäig, paneli solar thermal, pympiau gwres o'r ddaear a dŵr a ffliwiau sy'n gysylltiedig â bio-màs a systemau gwres a phŵer cyfunedig ar ffin tai a fflatiau neu oddi fewn iddynt, yn amodol ar feini prawf penodol.

Rwyf yn arbennig o falch ein bod wedi mynd gam ymhellach na Lloegr drwy ganiatáu paneli solar annibynnol hyd at ffiniau eiddo, ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf uchder a phriffyrdd penodol.

Ar gyfer adeiladau masnachol, rydym wedi comisiynu arolwg ar y cyd â'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a fydd yn sail i unrhyw gynigion a wneir yn y dyfodol.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran datblygu cartrefi nyrsio newydd, di-elw ers cyflwyno'r cytundeb Cymru'n Un (WAQ54778)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Medi 2009***

Rwyf wedi cwrdd ag Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i ystyried yr opsiynau sydd ar gael i ddatblygu'r ymrwymiad Cymru'n Un hwn. Mae ein swyddogion wedi bod yn cydweithio ar ystod o fodelau i ystyried yr opsiynau gorau ar gyfer cyflawni agenda Iechyd, Tai a Gofal Cymdeithasol yr ymrwymiad hwn. Rwy'n cwrdd â'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y mis hwn i drafod yr opsiynau sydd ar gael.

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pa gyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, y DU neu'r UE sydd ar gael fel arian cyfatebol ar gyfer yr arian a roddir gan ddatblygwyr ffermydd gwynt i ariannu prosiectau er budd cymunedau yng Nghymru (WAQ54779)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Medi***

Yn dechrau eleni, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cefnogi cynlluniau gwynt, biomas a thrydan dŵr yn y gymuned gan roi cyngor a grantiau drwy Fframwaith Newid yn yr Hinsawdd y rhaglen Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.

Bydd ein prosiectau 'Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy Cymunedol' - 'Cydgyfeirio' a 'Cystadleurwydd' yn sefydlu neu'n datblygu 22 o fentrau cymdeithasol cynaliadwy yn seiliedig ar osodiadau ynni adnewyddadwy newydd yn y gymuned.

Bydd y prosiectau'n darparu gwasanaeth datblygu technegol i gefnogi mentrau cymdeithasol a rhoi cyngor lleol ar ynni adnewyddadwy ynghyd â rhywfaint o gymorth ar gyfer costau rhagarweiniol a grantiau cyfalaf tuag at gost gosodiadau ynni adnewyddadwy. Caiff y prosiect ei gyflwyno gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.

Mae disgwyl i'r prosiectau gael eu lansio yn ystod yr hydref hwn.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o gleifion a gafodd eu trin yn ysbytai'r GIG ar wardiau cymysg ym mhob blwyddyn er 1999 (WAQ54773)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Medi***

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pryd mae'r Gweinidog yn bwriadu gwneud penderfyniad ar y cynigion i leihau ffioedd Hospedia ar gyfer galwadau ffôn mewn ysbytai (WAQ54774)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Medi 2009***

Mae fy swyddogion yn craffu ar ganfyddiadau'r arolwg i gostau taliadau galwadau ffôn ysbytai a'r opsiynau o ran sut i ddatblygu'r gwasanaeth hwn ar hyn o bryd. Disgwyliaf gael briffiad maes o law a byddaf yn ei ystyried yn ofalus cyn gwneud penderfyniad.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa amcangyfrif mae'r Gweinidog wedi'i wneud o gyfanswm cost trin cleifion yn breifat er mwyn cyrraedd targedau amseroedd aros Mynediad 09 (WAQ54775)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Medi 2009***

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o gleifion ym mhob un ardal ymddiriedolaeth GIG sydd wedi cael eu trin y tu allan i'r GIG ym mhob blwyddyn er 1999 (WAQ54776)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Medi 2009***

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A oes gan Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru y gallu i gyrraedd targedau amseroedd aros Mynediad 09 o 26 wythnos neu a fydd angen trin rhai cleifion y tu allan i'r GIG er mwyn bodloni'r targed hwn (WAQ54777)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Medi 2009***

Er bod y mwyafrif helaeth o gleifion yn cael eu gweld o fewn y GIG yng Nghymru, bydd nifer weddol fach yn parhau i gael eu trin yn y sector annibynnol tan fis Rhagfyr eleni, i sicrhau y caiff targedau Mynediad 09 eu cyflawni.

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Sut mae'r Gweinidog yn sicrhau bod Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn cyflawni ei chyfrifoldebau'n effeithiol (WAQ54780) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus.*

***Rhoddwyd ateb ar 22 Medi 2009***

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies)*:*** Mae AGGCC yn briodol annibynnol ar Weinidogion yng ngweithrediad proffesiynol ei swyddogaethau fel arolygiaeth. Mae ganddi ei systemau ei hun ar gyfer sicrhau ansawdd ac effeithiolrwydd o ran hyn, gan gynnwys ymgynghori helaeth â rhanddeiliaid. Mae gan weinidogion y cyfle i wneud sylwadau ar y rhaglen arolygu ac adolygu flynyddol a chael Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd.
O ran ei pherfformiad cyffredinol, mae'n rhan o Gyfarwyddiaeth Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn atebol drwy'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, o fewn y trefniadau atebolrwydd arferol ar gyfer swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Rwy'n cwrdd â'r Prif Arolygydd yn rheolaidd a gallaf godi unrhyw faterion penodol ag ef.

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog nodi ei hunion rôl a chyfrifoldebau o ran gwaith, swyddogaethau a gweithgareddau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (WAQ54781)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Medi 2009***

Gweinidogion Cynulliad Cymru yw'r awdurdod cofrestru ar gyfer y swyddogaethau a'r gweithgareddau a gynhelir gan AGGCC. Mae AGGCC yn rhan o Gyfarwyddiaeth Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae AGGCC yn cyflawni swyddogaethau rheoleiddio ac arolygu gweithredol ar ran Gweinidogion Cymru. Mae ei gweithredoedd a'i phenderfyniadau rheoliadol ac arolygu yn weithredol annibynnol.
O ystyried ei chyfrifoldeb arbennig am wasanaethau cymdeithasol, caiff y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol gynllun busnes blynyddol gan AGGCC, fe'i cyflwynir â chanfyddiadau ei gwaith a chaiff friffiau rheolaidd. Caiff Adroddiad Blynyddol AGGCC, sy'n cynnwys adroddiad am ei pherfformiad, ei drafod yn y Cyfarfod Llawn.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o'r gwariant a gynlluniwyd yng Ngwariant y Cynllun Datblygu Gwledig - llinell Wariant Cyllideb yr UE a'r DU ar gyfer 2009/10, sy'n dangos bod dyraniad o £60,606,000 yn y Gyllideb Derfynol ym mis Rhagfyr 2008 (WAQ54766)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Medi 2009***

Mae'r swm o £60,606,000 yn ymwneud â gwariant net (h.y. cyllideb gros llai y symiau a ariennir gan arian Ewropeaidd) ar Refeniw. Yn ogystal, mae gwariant wedi'i gynllunio ar gyfalaf ar y Cynllun Datblygu Gwledig - Gwariant yr UE a'r DU, sef £16,179,000 (net), gan roi'r gwriant net wedi'i gynllunio ar y Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer 2009/10 sef £76,785,000. Nodir dadansoddiad fesul Cynllun isod, gan ddangos ffigurau ar gyfer gwariant gros, symiau a ariennir gan arian Ewropeaidd, a'r ffigurau gwariant net fel y'u nodir uchod.

| **Y Cynllun Datblygu Gwledig (RDP) fesul Cynllun** | **Gwariant Gros £'000** | **Llai: Cyllid yr UE £'000** | **Gwariant Net £'000** |
|---|---|---|---|
| Echel 1 RDP - Cyswllt Ffermio | 4,026 | 2,647 | 1,379 |
| Echel 1 RDP - Grant Prosesu a Marchnata | 10,548 | 6,390 | 4,158 |
| Echel 1 RDP - Effeithlonrwydd Cadwyn Cyflenwi | 6,255 | 3,332 | 2,923 |
| Echel 1 RDP - Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr | 1,495 | 810 | 685 |
| | | | |
| Echel 2 RDP - Tir Gofal | 29,660 | 11,460 | 18,200 |
| Echel 2 RDP - Tir Cynnal | 8,102 | 2,106 | 5,996 |
| Echel 2 RDP - Tir Mynydd | 25,690 | 3,986 | 21,704 |
| Echel 2 RDP - Ffermio Organig | 8,000 | 2,080 | 5,920 |
| Echel 2 RDP - Cynlluniau Amaethyddol Amgylcheddol Eraill | 1,276 | 333 | 943 |
| Echel 2 RDP - Cynllun Coetir Ffermydd/Cynllun Premiwm Coetir Ffermydd | 610 | 159 | 451 |
| Echel 2 RDP - Coetiroedd Gwell i Gymru | 3,306 | 859 | 2,447 |
| Echel 2 RDP - Ffermio Sensitif i Ddalgylch Afon | 200 | 126 | 74 |
| | | | |
| Echel 3 RDP - Arallgyfeirio i faes Anamaethyddol | 55 | 39 | 16 |
| Echel 3 RDP - Cymorth i Greu Busnesau | 2,068 | 1,134 | 934 |
| Echel 3 RDP - Hyrwyddo Gweithgareddau Twristiaeth | 2,532 | 1,294 | 1,238 |
| Echel 3 RDP - Gwasanaethau Sylfaenol i'r Economi | 2,148 | 1,195 | 953 |
| Echel 3 RDP - Adnewyddu a Datblygu Pentrefi | 814 | 383 | 431 |
| Echel 3 RDP - Cadwraeth ac Uwchraddio'r Dreftadaeth Wledig | 1,705 | 756 | 949 |
| Echel 3 RDP - Darparu Hyfforddiant a | 1,090 | 568 | 522 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwybodaeth | | | |
| Echel 3 RDP - Meithrin Sgiliau | 2,376 | 1,090 | 1,286 |
| | | | |
| Echel 4 RDP - Strategaeth | 4,024 | 2,213 | 1,811 |
| Echel 4 RDP - Costau Rhedeg | 1,335 | 734 | 601 |
| Echel 4 RDP - Cydweithredu | 669 | 368 | 301 |
| | | | |
| Cymorth Technegol RDP | 788 | 394 | 394 |
| Gwariant Arall RDP, gan gynnwys gwerthusiad | 2,469 | 0 | 2,469 |
| **Cyfanswm** | 121,241 | 44,456 | 76,785 |

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Ar gyfartaledd, faint mae paratoi contract a chynllun rheoli ar gyfer grant 'Coetiroedd Gwell i Gymru' yn ei gostio i Lywodraeth Cynulliad Cymru (WAQ54770)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Medi 2009***

Ar gyfartaledd, y gost a delir i baratoi contract Coetiroedd Gwell i Gymru a chynllun rheoli hyd at 31 Awst 2009 yw £1309.84.

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Ar gyfartaledd, faint mae paratoi contract a chynllun rheoli ar gyfer grant 'Coetiroedd Gwell i Gymru' yn ei gostio i ymgeisydd (WAQ54771)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Medi 2009***

Ni chedwir y wybodaeth yn ganolog gan ei fod yn fater o gontract rhwng yr ymgeisydd a'r cynllunydd rheoli.

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Faint o amser mae'n cymryd i baratoi contract a chynllun rheoli ar gyfer grant 'Coetiroedd Gwell i Gymru' (WAQ54772)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Medi 2009***

Mae'r amser a gymerir i baratoi contract a chynllun rheoli ar gyfer Coetiroedd Gwell i Gymru yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys pa mor awyddus yw perchennog i sicrhau y caiff y cynllun ei gymeradwyo.

Ar hyn o bryd, mae'r cyfnod o'r cam gwneud cais cychwynnol hyd at sicrhau contract cytûn Coetiroedd Gwell i Gymru a chynllun rheoli yn 127 o ddiwrnodau ar gyfartaledd.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** O ran y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer awdurdodau lleol yn y flwyddyn ariannol bresennol, (a) pa symiau oedd wedi'u neilltuo, (b) beth oedd y rheswm dros neilltuo ac (c) at ba ddiben y neilltuwyd yr arian (WAQ54767)

***Rhoddwyd ateb ar 25 Medi***

Nid yw'r Grant Cynnal Refeniw i awdurdodau lleol wedi'i neilltuo ac mae gan awdurdodau lleol rwydd hynt i benderfynu sut y caiff yr arian hwnnw ei wario i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt. Yn ogystal â'r Grant Cynnal Refeniw, caiff awdurdodau lleol grantiau penodol i hyrwyddo a chynnal mentrau polisi penodol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r grantiau hyn o fewn portffolios unigol Gweinidogion.

**Nerys Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhagor o fanylion am ymgyrch Llywodraeth Cynulliad Cymru i godi ymwybyddiaeth am gam-drin domestig (WAQ54784)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Medi 2009***

Rwyf yn trefnu ymgyrch ymwybyddiaeth o gam-drin domestig i'w chynnal dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn newydd. Trafodwyd yr opsiynau ar gyfer yr ymgyrch yng Ngweithgor Cam-drin Domestig Cymru Gyfan ar 15 Gorffennaf ac maent wrthi'n cael eu terfynu.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** O ran y £4m a gyhoeddwyd fel rhan o ymrwymiad Cymru'n Un i helpu pensiynwyr gyda'r Dreth Gyngor, pa asesiad mae'r Gweinidog wedi'i wneud ynghylch sut y bydd profion modd ar gyfer y cynllun yn cael eu rhoi ar waith (WAQ54785)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** O'r £4m a gyhoeddwyd fel rhan o ymrwymiad Cymru'n Un i helpu pensiynwyr gyda'r Dreth Gyngor, faint o arian sydd wedi cael ei ddosbarthu ar hyn o bryd i awdurdodau lleol (WAQ54786)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** O ran y £4m a gyhoeddwyd fel rhan o ymrwymiad Cymru'n Un i helpu pensiynwyr gyda'r Dreth Gyngor, pa ddyddiadau cau a bennwyd i Awdurdodau Lleol gael y grantiau ac a yw hyn wedi newid yn ddiweddar (WAQ54787)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** O ran y £4m a gyhoeddwyd fel rhan o ymrwymiad Cymru'n Un i helpu pensiynwyr gyda'r Dreth Gyngor, pa adnoddau sydd wedi'u darparu i Awdurdodau Lleol i dalu am weinyddu'r arian (WAQ54788)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** O ran y £4m a gyhoeddwyd fel rhan o ymrwymiad Cymru'n Un i helpu pensiynwyr gyda'r Dreth Gyngor, sawl Awdurdod Lleol sydd wedi cael yr arian hyd yn hyn (WAQ54789)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Medi 2009***

Ar ôl ystyried yr opsiynau ar gyfer cyflawni ymrwymiad 'Cymru'n Un' i helpu pensiynwyr gyda'u treth gyngor, rwyf wedi penderfynu y câi'r canlyniadau gorau eu sicrhau drwy ddyrannu grantiau yn uniongyrchol i awudurdodau lleol a chaniatáu iddynt benderfynu sut y maent am ddefnyddio'r arian i helpu pensiynwyr gyda'r dreth gyngor.

Bydd cynghorau lleol yn gallu mabwysiadu polisïau a fydd yn eu barn hwy yn diwallu anghenion y boblogaeth leol orau ac sy'n cyd-fynd â'u strategaeth gymunedol, yn hytrach na gorfod gweithredu un dull cyffredinol. Bydd yn bosibl gweithredu cynlluniau gwahanol i gyd-fynd â'r gwahaniaethau demograffig ac economaidd sy'n bodoli rhwng ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru.

Roedd y fformiwla ar gyfer dosbarthu arian i awdurdodau lleol yn seiliedig ar ystadegau dosbarthu pobl hŷn a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad Gwario Safonol ar gyfer dosbarthu'r Grant Cynnal Refeniw. Mae hyn yn sicrhau bod pob awdurdod yn cael grant sy'n gymesur i nifer y pensiynwyr sy'n byw yn ei ardal.

Hysbyswyd Awdurdodau Lleol o'r trefniadau grant ym mis Awst a gofynnwyd iddynt ddweud yn ffurfiol eu bod yn derbyn y cynnig grant erbyn 31 Hydref 2009. Bryd hynny cânt hanner eu dyraniad grant a byddant yn gallu hawlio gweddill y grant, ynghyd â swm ar gyfer costau gweinyddol, ym mis Chwefror 2010. Ar yr un adeg, gofynnir iddynt gyflwyno adroddiad terfynol sy'n dangos sut y dyrannwyd yr arian a faint o bensiynwyr a gafodd gymorth gyda'u treth gyngor.

Neilltuwyd cyfanswm o £2.11 miliwn i awdurdodau lleol ar gyfer 2009-10, sy'n cynnwys £5,000 i bob awdurdod ei roi at gostau gweinyddol.